Tîm Modwl

Shân Samuel-Thomas	Shan.samuel-thomas@uwtsd.ac.uk
David Stacey	David. Stacey@uwtsd.ac.uk

LLAWLYFR MODWL

ECSP7001

Ymchwilio i Faterion Cyfoes mewn Addysg Uwchradd

Cyrsiau TAR Uwchradd

LEFEL 7

40 Credyd

CYFADRAN ADDYSG A CHYMUNEDAU

2018/2019

Cyflwyniad

Gobeithiwn y gwnewch fwynhau'r rhaglen. Am eich bod yn ymuno â phroffesiwn, rydym yn eich disgwyl i ymddwyn mewn ffordd briodol yn y brifysgol, ysgol a chyd-destunau eraill sy'n ymwneud â gwaith. Mae'n bwysig bod pob un ohonom yn darllen ac yn dilyn polisïau a chanllawiau'r Brifysgol a'r Ganolfan o ran presenoldeb, asesu, e-ddiogelwch a diogelu. Mae'r rhain ar gael ar Moodle.

O ran asesu, dylai pob rhan o bob aseiniad fod eich gwaith chi eich hun, a dylid ei gyflwyno mewn fformat prosesu geiriau. Dylech eu cyflwyno gan ddefnyddio Turnitin drwy Moodle, yn unol â pholisi'r Brifysgol.

Gan gyfeirio yn benodol at aseiniadau:

- dylai'r aseiniad cyfan fod eich gwaith chi eich hun;
- dylid ei gyflwyno mewn fformat prosesu geiriau;
- dylid ei gyflwyno drwy Turnitin yn unol â therfynau amser yr aseiniad;
- dylech gyflwyno'r daflen adborth a ddarperir gyda'ch aseiniad;
- dylech ymgymryd â, a dangos eich bod yn ymgysylltu â'r targedau a osodir ar eich cyfer.

Eich cyfrifoldeb chi yw darllen Rheoliadau ar gyfer Myfyrwyr y Brifysgol, yn enwedig y rheoliadau sy'n ymwneud ag aseiniadau. Mae'r rhain ar gael ar MyDay.

Aseiniad	**Crynodeb o Themâu**	**Dyddiad cyflwyno**
ECSP7001C – Lefel 7	Ymchwilio i Faterion Cyfoes Addysg Uwchradd	Dydd Llun, Ionawr 28 2019 5,000 o eiriau

Amcanion a Deilliannau’r Modwl

AMCANION

• I ddatblygu ymwybyddiaeth ddwys o faterion cyfoes sy’n ymwneud â’r cwricwlwm 11-18 yng Nghymru.

• I alluogi myfyrwyr i ddangos dealltwriaeth drwyadl o fecanweithiau strategol a ddefnyddir gan ysgolion/golegau ar gyfer gwella safonau dysgu ac addysgu ar sail blaenoriaethau cenedlaethol cyfredol.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar gwblhau’n llwyddiannus y modwl hwn, dylai’r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- Gwerthuso’n feirniadol y blaenoriaethau cyfredol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ac arolygiaeth Estyn ynghyd â’u trefniadau ar gyfer sicrhau newid.
- Dangos gallu beirniadol datblygedig i adfyfyrio ar, trafod a beirniadu effaith blaenoriaethau a mentrau cyfoes ar drefn a phrosesau datblygu’r ysgol gyfan.
- Archwilio’n feirniadol y broses a fabwysiedir gan ysgolion ar gyfer nodi meysydd i’w datblygu, ynghyd â rôl Estyn, wrth gefnogi newid a phrosesau cynllunio strategol er mwyn sicrhau gwelliant o ran dysgu ac addysgu.
- Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth greadigol, systematig a chynhwysfawr o brosesau gwella ysgolion a yrrir gan faterion cyfoes ar gyfer cefnogi gwelliannau mewn safonau addysgu a dysgu.
- Adolygu’n feirniadol tystiolaeth ymchwil sy’n dangos barn gadarn o ddata cymhleth ar gyfer cefnogi penderfyniadau addysgol.

Manylion y Sesiynau

Dyddiad	**Ffocws**
Darlith Arweiniol – 14.12.18	Trosolwg o'r newidiadau yng Nghymru – ysgolion arloesol
Ar Moodle 17.12.18	Cynllunio strategol ar gyfer gwella ysgolion.
Ar Moodle 17.12.18	Cymhwysedd Digidol
Ar Moodle 17.12.18	Dadansoddi data
Ar Moodle 17.12.18	Tlodi a chyrhaeddiad
Ar Moodle 17.12.18	Saesneg fel iaith ychwanegol

ASESU

Paratowch bapur ar gyfer llywodraethwyr ysgol sy'n archwilio'n feriniadol fenter neu system sy'n ymddangos yng Nghynllun Gweithredu'r Ysgol/Coleg (fe allai hyn gynnwys Cynllun Datblygu/Gwella'r Ysgol neu'r Adran neu adroddiad diweddaraf Estyn ar yr ysgol). Mae angen cynnwys cynllun gweithredu o'r camau nesaf sydd wedi ei seilio ar dystiolaeth ac wedi ei gefnogi gan dystiolaeth academaidd.

Dyma rhai meysydd all ymddangos yn y cynllun gweithredu. Efallai bod cynlluniau i ddatblygu un o'r rhain o fewn y pwnc:

- **Mewnosod agweddau o lythrennedd, e.e. ysgrifennu estynedig;**
- **Datblygu rhifedd ymhellach;**
- **Cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwersi;**
- **Gwella cynllunio er mwyn cynnwys Y Cwricwlwm Cymreig o fewn cynlluniau gwaith;**
- **Datblygu strategaethau pwnc-seiliedig er mwyn ymateb i'r agenda tlodi;**
- **Paratoi ar gyfer gweithredu cwricwlwm Donaldson;**
- **Gwella cynnwys Asesu ar gyfer Dysgu o fewn gwersi.**

Manylion yr Aseiniad:

Bydd yr aseiniad yn cymryd lle yn ystod PAP 1 ac yn cynnwys papur ar gyfer bwrdd llywodraethwyr ysgol neu goleg.

Cyfrif geiriau'r asesinad yw 5,000 o eiriau.

Strwythur Argymelledig

Dylai eich papur gynnwys:

- Rhagarweiniad clir sy'n disgrifio cynnwys y testun y byddwch yn ei drafod a pham mae'n bwysig;
- Trosolwg o Gynllun Gwella Adrannol eich ysgol neu goleg;
- Esboniad trwyadl o sut mae'r testun yr ydych wedi'i ddewis o'r Cynllun Gwella Adrannol yn ymwneud â'r Cynllun Gwella ar gyfer yr Ysgol gyfan / Coleg cyfan (CGY).
- Gwerthusiad beirniadol o'r rheswm pam fod rôl cynllunio strategol er mwyn sicrhau gwelliant yn bwysig, ynghyd â chyfeirio clir at ymchwil proffesiynol ac academaidd, er mwyn cefnogi eich safbwynt;
- Gwerthusiad beirniadol o'r hyn sydd gan lenyddiaeth ac ymchwil allweddol ddweud am eich testun penodol chi, ynghyd â chyfeiriadau addas;
- Dadansoddiad manwl o dystiolaeth sy'n nodi pam fod angen gwella gwaith o fewn y testun y gwnaethoch benderfynu canolbwyntio arno, e.e. adroddiadau archwiliadau Estyn, adolygiad adrannol, data Cyfnod Allweddol, canlyniadau arholi allanol, a.y.b;
- Adolygiad beirniadol manwl o sut mae eich ysgol / coleg yn ymateb, h.y. beth ydy'n nhw'n ei wneud i wella, pa strategaethau newydd sydd wedi'u gosod mewn lle, a sut mae hyn yn cysylltu â llenyddiaeth ac ymchwil allweddol?
- Gwerthusiad beirniadol o'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn, ynghyd ag enghreifftiau o waith dysgwyr, pa le bynnag mae'n briodol;
- Esboniwch sut mae hyn yn ymwneud â'r hyn sydd gan lenyddiaeth/ ymchwil allweddol ei ddweud.

- Camau nesaf – pa weithredoedd y byddech yn eu hargymell er mwyn gwthio'r fenter hon ymhellach a pham?
- Cyfeiriadau
- Atodiadau - e.e. Cynllun Gwella Adrannol yr Ysgol (coleg), Cynllun Gwella'r Ysgol gyfan (coleg cyfan), enghreifftiau o waith dysgwyr, delweddau, ac ati.

Cyngor ar ysgrifennu academaidd

<u>Ysgrifennu beirniadol:</u>

Mae ysgrifennu academaidd yn ymwneud â chyflwyno dadl wrthrychol, a dyna beth yr ydym am ddarllen. Am hynny, bydd rhaid i chi drafod y rhesymau ar gyfer yr ymagwedd, ei chryfderau a'i gwendidau, y rhesymau o blaid ac yn erbyn, yn ogystal â'r cyfiawnhad am y dewisiadau a wnaed.

Rhaid i chi beidio ag *adrodd* neu *ddisgrifio* yn unig, am nad yw hyn yn creu dadl, ac felly nid yw'n *feirniadol*.

Ni ellir gwneud y ddadl i fyny. Rhaid ei seilio ar ddarllen, gan gyfeirio at adfyfyrio personol ar brofiad addysgu proffesiynol. Bydd y darllen mwyaf cyfredol ar gael mewn cyfnodolion academaidd, a dyna pam y dylech gyfeirio at y rhain, yn hytrach na dibynnu dim ond ar lyfrau. Hefyd, caiff erthyglau mewn cyfnodolion eu hadolygu gan eich cymheiriaid, sy'n golygu bod arbenigwyr eraill yn y maes yn cydnabod y cyfraniad. Mae hyn hefyd yn golygu bod gan erthyglau academaidd hygrededd a gaiff ei adlewyrchu yn eich gwaith. Am y rheswm hwn, os ydych yn anghytuno â phwyntiau a gaiff eu gwneud mewn erthygl, rhaid eich bod yn gallu cyfiawnhau'r safbwynt hwn, drwy ddefnyddio tystiolaeth arall sydd wedi'i seilio naill ai ar ddarllen neu ar yr ystafell ddosbarth.

Ni ddylech ddibynnu ar *ddyfyniadau uniongyrchol*, oherwydd nid eich geiriau CHI yw'r rhain. Dylech geisio aralleirio pwyntiau, am fod hyn yn dangos gwell ddealltwriaeth ac yn eich galluogi i gymharu a chyferbynnu safbwyntiau yn haws. Er hynny, dylid rhoi'r cyfeiriad am unrhyw aralleirio (gwnaeth Smith (2015) awgrymu ...)

Iaith ofalus – wrth ysgrifennu'n academaidd, rydym yn defnyddio iaith ofalus. Y rheswm am hyn yw, ni allwn ddweud unrhyw beth yn bendant, nac awgrymu achos ac effaith uniongyrchol, na chreu ymateb emosiynol yn y darllenydd chwaith. Felly, rydym yn defnyddio geiriau megis 'awgrymu', 'efallai', 'mae'n ymweld'.

Cywirdeb - ar y lefel hon, rydym yn disgwyl cywirdeb o ran gramadeg, sillafu, atalnodi a chyfeirnodi. Darllenwch drwy eich gwaith er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr os gwelwch yn dda.

Cydweddu testunau (TURNITIN) – bob blwyddyn, rydym yn derbyn un neu ddau aseiniad a gaiff ei gyfeirio a'i wirio am arfer annheg (llên-ladrad). **Rhaid i chi ddefnyddio'r safleoedd ymarfer cyflwyno i wirio am gydweddu testunau ac ymateb yn briodol iddo. Eich cyfrifoldeb chi yw gwirio bod yr holl gyfeirio yn gywir.**

Cyfeirio Harvard:

Rhaid cydnabod pob ffynhonnell gan gyfeirio'n glir at y gwaith yr ymgynghorwyd ag ef, gan ddefnyddio'r dull (Awdur, Dyddiad) o gyfeirnodi e.e. y system Harvard neu'r system a ddarperir o fewn Word 2007.

Mae pob adran isod yn dangos sut y dylid cyfeirio at y deunydd ffynhonnell sydd yn yr aseiniad a sut y dylid ysgrifennu'r cyfeiriad ar ddiwedd eich aseiniad. Dylid rhoi'r cyfeiriadau mewn rhestr sengl yn ôl y wyddor, gan gynnwys dim ond y rhai hynny yr ydych yn cyfeirio atynt yn uniongyrchol yn eich aseiniad.

Gallech ddyfynnu geiriau awdur, athro neu ddisgybl, air am air, er mwyn darparu delwedd neu dystiolaeth i gefnogi'r pwynt yr ydych am ei wneud. Wrth ddyfynnu ffynhonnell sydd wedi'i chyhoeddi, yn ogystal â rhoi'r enw a'r dyddiad, dylech nodi rhif y dudalen o fewn yr un cromfachau, e.e. (Hallam, 2001, 72).

Dylid rhoi dyfyniadau rhwng dyfynodau – "....." neu, ar gyfer dyfyniadau hwy, wedi'u mewnoli ar linell wahanol.
Er hynny, sylwch y gallai gorddefnyddio dyfyniadau o'r llenyddiaeth ddangos dealltwriaeth gyfyngedig o'r deunydd, ac felly achosi i chi gael gradd asesedig is.

Llyfrau

a. Un awdur

- yn nhestun yr aseiniad: Hayes (2004)
- yn y rhestr gyfeiriadau: Hayes, D. (2004) The RoutledgeFalmer Guide to Key Debates in Education. London: RoutledgeFalmer

b. Dau awdur

- yn nhestun yr aseiniad: Dillon & McGuire (2007)
- yn y rhestr gyfeiriadau: Dillon, J. & McGuire, M. (eds.) (2007) Becoming a Teacher: Issues in Secondary Teaching (Third edition). Maidenhead: Open University Press.

c. Mwy na dau awdur:

- yn nhestun yr aseiniad: Davies et al., (2003)
- yn y rhestr gyfeiriadau: Davies, I., Gregory, I. & McGuinn, N. (2003) Key Debates in Education. London Continuum Books

d. Pennod gan un awdur mewn casgliad a olygwyd yn nhestun yr aseiniad: (Wade, 2001)

- yn y rhestr gyfeiriadau: Wade, R, (2001) "Global citizenship ;choices and change" in Lambert, D. & Machon, P. (eds.) Citizenship in Secondary Geography, London: RoutledgeFalmer.

(Ceir y confensiynau ar gyfer awduron ar y cyd a lluosol sydd wedi ysgrifennu penodau yn (b) a (c) uchod.)

D.S: Pe bai gan lyfr fwy nag un argraffiad, gwnewch hi'n glir yn y cyfeiriadau pa argraffiad yr ydych wedi'i ddefnyddio.

- yn nhestun yr aseiniad: (Cole, 2005)

- yn y rhestr gyfeiriadau: Cole, M. (ed.) (2005) Professional Values and Practice. Meeting the Standards (Third edition). London: David Fulton Publishers

e. Cyfeiriadau anuniongyrchol (pan nad ydych wedi darllen yr astudiaeth wreiddiol)

- Yng nghorff yr aseiniad neu draethawd hir, mae'n dweud: Cole (1988, cited in Butler, 1993) stresses the importance of how Piagetian tests are presented to children.
- Mae angen i chi gynnwys yn y rhestr gyfeiriadau y ffynonellau gwreiddiol, yn ogystal â'r rhai eilaidd: Butler, M. (1993) The Mind of a Child, London: Fontana

Cole, A. (1988) Using Piagetian Tests with Young Children, London: Academic Press

Erthyglau mewn Cyfnodolion

Un awdur

- yn nhestun yr aseiniad: (Boaler, 1997)
- yn y rhestr gyfeiriadau: Boaler, J. (1997) "When even the winners are losers : evaluating then experiences of 'top set' students", Journal of Curriculum Studies., 29, (2), 169 – 182.

(Sylwer: dylid darparu rhif y gyfrol (29), rhif y rhan (2) a rhifau'r tudalennau (169-182)).
(Ceir y confensiynau ar gyfer awduron ar y cyd a lluosol erthyglau uchod.)

Cyhoeddiadau'r Llywodraeth

- Yn nhestun yr aseiniad: (Estyn, 2002)
- yn y rhestr gyfeiriadau: Estyn (2002) Ysgolion ardderchog: gweledigaeth i ysgolion yng Nghymru yn ystod yr 21ain ganrif. Caerdydd: Estyn.

Deunydd Electronig

Ar gyfer dogfen www

- Awdur, llythrennau cyntaf enw (blwyddyn) (h.y. os oes yna awdur). Teitl y ddogfen a'i ddilyn gyda [WWW] lleoliad y ddogfen (y dyddiad y cafodd ei chyrchu) e.e. Learning, Teaching and Managing using ICT [www] http://www.teachernet.gov.uk/wholeschool/ictis/ (date accessed:15 April 2010)

b. Ar gyfer erthygl www sydd mewn Cyfnodolyn Electronig

- Awdur, llythrennau cyntaf enw (blwyddyn), teitl y ddogfen ym manylion y cyfnodolyn [www] lleoliad y ddogfen (y dyddiad y cafodd ei chyrchu) e.e. Dal, B. (2006) 'The Origin and Extent of Student's Understandings: The Effect of Various Kinds of Factors in Conceptual Understanding in Volcanism in: Electronic Journal of Science Education 11 (1) [www] http://ejse.southwestern.edu/volumes/v11n1/articles/art04_dal.pdf (date accessed: 15 May 2007)

Moeseg

- Rhaid i chi sicrhau anhysbysrwydd ysgolion, disgyblion a staff.

Atodiadau

- Pa le bynnag mae'n berthnasol, gallwch ddewis atodi dogfennau sy'n darparu gwybodaeth bellach ynglŷn â'ch gwaith. Gall y rhain gynnwys enghreifftiau o Gynlluniau Gwella Ysgolion neu golegau, neu adroddiadau diweddaraf Estyn.

- *Nid yw'r* atodiadau yn cyfrif tuag at nifer terfynol y geiriau. Sicrhewch eich bod yn **atodi dim ond yr hyn sy'n hanfodol ar gyfer dealltwriaeth gyflawn o'r pwyntiau yr ydych yn eu gwneud yn yr aseiniad**, a bod pob atodiad wedi'i labelu'n glir (Atodiad A, B ac ati).

Darlenn Allweddol

Cymerwch amser i ymgymryd â darllen os gwelwch yn dda. Disgwylir bod eich trafodaethau llafar ac ysgrifenedig wedi'u cefnogi gan ddarllen.

Hefyd, ar y lefel hon, disgwylir eich bod yn cefnogi eich darllen drwy gyfeirio at erthyglau mewn cyfnodolion cyfredol. Gallwch ddod o hyd i restr gynhwysfawr o gyfnodolion ar gatalog ar-lein y llyfrgell.

Llyfryddiaeth Hanfodol

Collins, R (2012) Strategic planning for school improvement. Strategic Planning for Schools (ebook).

Fidler, B (November 2000) *Strategic Management for School Development: Leading your School's Improvement Strategy*, Published in association with the British Educational Leadership and Management Society by Paul Chapman Publishing Ltd.

Fullan, M (2004) *The New Meaning of Educational Change*, Jossey-Bass.

MacGilchrist, B (2004) *The Intelligent School*, Sage Publications.

Preedy, M (2003) *Strategic Leadership and Educational Improvement,* Open University Press.

Tracy, D.A (2013) *School Improvement: Revitalize your School with Strategic Planning,* Xlibris Corporation.

Dogfennau Polisi a Chwricwlwm Allweddol

Department for Education (2010) *The Importance of Teaching,* London: HMSO

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Fframwaith Sgiliau, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cymru (2012) Gwella Ysgolion, Caerdydd, *Llywodraeth Cymru.*

Llywodraeth Cymru (2013) Asesu ar gyfer Dysgu a'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd. Ar gael:

http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/131104-assessment-for-learning-and-the-nlnf-en.pdf

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2013) Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd Cenedlaethol, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130415-lnf-guidance-en.pdf

Llywodraeth Cymru (2013) Asesu ar gyfer Dysgu a'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd. Ar gael

http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/131104-assessment-for-learning-and-the-nlnf-en.pdf

Llywodraeth Cymru (2015) Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru *(2015) Cymwys am Oes, Caerdydd, Llywodraeth Cymru. Ar gael:* http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/qualified-for-life-an-educational- improvement-plan/?lang=en

Llywodraeth Cymru (2016) Fframwaith Cymhwysedd Digidol, Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

http://learning.gov.wales/resources/browse-all/digital-competence-framework/?lang=en

Lawrlwythwch a darllenwch: Cyfarwyddyd Estyn ar gael ar:

http://dera.ioe.ac.uk/18431/1/Supplementary_guidance_Literacy_and_numeracy_in_primary _sc hools.pdf

Cyfnodolion

Ar y lefel hon, disgwylir bod myfyrwyr yn ymgymryd â darllen yn eang erthyglau mewn cyfnodolion perthnasol er mwyn cyflenwi astudiaethau llyfrau testun.

- British Journal of Educational Research
- British Journal of Educational Studies
- Curriculum Journal
- Educational Research
- Educational Review
- Journal of Curriculum and Pedagogy
- Professional Development in Education
- Cylchgrawn Addysg Cymru

Gwefannau

• Behaviour for Learning - www.behaviour4learning.ac.uk
• British Educational Research Association – www.bera.ac.uk
• Estyn – www.estyn.gov.uk
• Evidence for Policy and Practice Information and Coordination Centre – www.eppi.ioe.ac.uk
• Inclusion UK Consortium – www.inclusion.org.uk
• Arsyllfa Dysgu a Sgiliau Ranbarthol Cymru - wwwlearningobservatory.com • National College of School Leadership – www.ncsl.org.uk
• National Foundation for Education Research – www.nfer.ac.uk
• Office for Standards in Education – www.ofsted.gov.uk
• SEN Teacher – www.senteacher.org